# Y Llwybr Hyfforddiant ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

**Cyflwyniad i waith ieuenctid**

Gall hwn fod yn sesiwn ymsefydlu'r sefydliad ei hun, hyfforddiant neu gymwysterau o wahanol hyd a lefelau cymhlethdod. Mae'n cynnwys cwrs Cerrig Camu Cyngor Cymreig Y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

**Addysg Uwch**
**Lefel 6 & 7**
**Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC**

Mae'r gweithwyr hyn yn gyfrifol am ddarparu, dylunio a datblygu gwaith ieuenctid ynghyd â chyfrifoldebau rheoli gweithredol.

**Darparwyr hyfforddiant:**

- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
- Y Brifysgol Agored
- Prifysgol De Cymru, Casnewydd
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin

**Cymwysterau JNC (DU a holl Iwerddon)**

- Dim lefel / Mynediad & Lefel 1-2
- Tystysgrif Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid – 26 Credyd
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid – 27 Credyd
- Lefel 4: Tystysgrif Addysg Uwch – 120 Credyd
- Lefel 5: Diploma Addysg Uwch / Gradd Sylfaen – 240 Credyd
- Lefel 6 Gradd BA(Anrh)Gwaith Ieuenctid a ChymunedWork – 360 Credyd
- Lefel 7 Diploma Ôl-raddedig Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (cymhwyso dechreuol ac ar ôl cymhwyso)

... CPD ... CPD ...

Sylwer: Mae rhai prifysgolion yn cynnig lefel Sylfaen dewisol cyn Lefel 4 sy'n cynnwys Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid.

**Addysg Bellach**
**Tystysgrif Lefel 2 & 3**
**Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cynorthwyol JNC / Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC**

Mae'r gweithwyr hyn yn darparu a chynorthwyo i ddarparu gwaith ieuenctid gweithredol dan arweinyddiaeth a chyfarwyddyd gweithwyr ieuenctid â chymwysterau proffesiynol.

**Sefydliadau dyfarnu:**

- Agored Cymru
- SEG Awards


**Darparwyr hyfforddiant:**

- Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol

Mae prentisiaethau ar gael hefyd

# Mannau cychwyn ar gyfer Hyfforddiant gwaith ieuenctid y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC)

## Mae'r unigolyn yn...




**Gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw gyfnod. Nid oes raid i Weithwyr Cefnogi Ieuenctid sy'n gweithio ar y lefel honno gwblhau gradd.**

**Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC …**

bod yn gyfrifol am ddarparu, dylunio a datblygu gwaith ieuenctid ynghyd â chyfrifoldebau rheoli gweithredol a strategol.

Esiamplau a Dyletswyddau Allweddol:

- Perfformio holl ddyletswyddau ar gyfer gweithwyr cefnogi ieuenctid a chymunedol;
- Rheoli a datblygu amrywiaeth o wasanaethau;
- Rheoli a datblygu staff a chyfleusterau;
- Gweithio gydag asiantaethau eraill i ddatblygu gwasanaethau ar draws y gymuned;
- Dylunio, arwain a gweithredu cwricwlwm gwaith ieuenctid.
- Arwain ar ddatblygu a gweithredu prosiect.

**Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Cynorthwyol JNC …**

**cynorthwyo** i ddarparu gwaith ieuenctid gweithredol ac ymgymryd â dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

**Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid JNC …**

**darparu** gwaith ieuenctid gweithredol ac ymgymryd â dyletswyddau ar liwt eu hunain neu bod â chyfrifoldeb goruchwyliol am brosiectau bychain, megis clybiau unwaith yr wythnos.

Mae esiamplau o ddyletswyddau allweddol yn cynnwys:

- Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i ddatblygu eu haddysg cymdeithasol drwy ddarparu rhaglenni o weithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau;
- Sefydlu cyswllt gydag ac arwain pobl ifanc fel rhan o raglenni lleol;
- Darparu cyngor a chefnogaeth i grwpiau cymunedol lleol ac asiantaethau;
- Cynorthwyo i ysgogi, cadw, datblygu a chefnogi staff a gwirfoddolwyr;
- Cyfrannu tuag at ddatblygu gwasanaeth drwy gynllunio, darparu a monitro darpariaethau lleol;
- Gweithredu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Sefydlu a chynnal perthnasoedd gyda phobl ifanc, grwpiau cymunedol ac asiantaethau;
- Cynnal ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd i weithwyr eraill;
- Cyfrifoldeb is-reolwyr ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, datblygu a disgyblu staff;
- Dechrau a monitro datblygiadau i'r gwasanaeth, yn arbennig gydag asiantaethau eraill;
- Perfformio a sicrhau dyletswyddau gweinyddol (gan gynnwys rheoli'r gyllideb, cadw cofnodion ac iechyd a diogelwch).